


# Amodau Trwydded Asiant Gofynion Safonau Busnes



Fel rhan o'ch trwydded asiant mae gofyn i chi lynu at amodau trwyddedu Rhentu Doeth Cymru. Mewn rhai achosion, efallai y bydd Rhentu Doeth Cymru yn gosod amodau ychwanegol y bydd yn rhaid i chi gydymffurfio â hwy.

I asiantau sy'n cyflawni gweithgareddau gosod a rheoli ar fwy na dau eiddo ar gyfer landlord unigol nad yw'n perthyn (nid yn aelod teulu), yn unol ag un o'r amodau hyn, mae angen iddynt fod yn aelod o gynllun Diogelu Arian Cleientiaid, bod ag Yswiriad Iawndal Proffesiynol a bod yn aelod o Gynllun Gwneud Iawn am Gamweddau am gyfnod y drwydded.

Fel rhan o'r amodau, mae gofyn i'r trwyddedai roi tystiolaeth yn profi ei fod yn cydymffurfio â'r 3 safon busnes i Rhentu Doeth Cymru. Gall y dystiolaeth hon fod ar ffurf dogfennaeth neu dystysgrif. Bydd y rhan fwyaf o'r cynlluniau talu'n iawn neu ddiogelu arian cleient yn rhoi tystysgrif aelodaeth i chi fel tystiolaeth neu i'w harddangos. Gydag yswiriant iawndal proffesiynol, fel arfer rydym yn gofyn am gael gweld rhestr neu ddogfennaeth yn dangos pa yswiriant sydd gan Asiant gan ei ddarparwr.

**Ar 'Dudalen Adnoddau' gwefan Rhentu Doeth Cymru dan Ddogfennau Polisi Rhentu Doeth Cymru, fe welwch adnodd o'r enw 'Math y drwydded ac amodau'. Mae'r ddogfen hon yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am yr amodau y gallai asiant eu cael yn dibynnu ar ei amgylchiadau personol.**

**Ceir diffiniad cryno o'r termau hyn isod:**

## **Diogelu Arian Cleient**

Mae hwn yn fath o yswiriant sy'n amddiffyn cleient (fel arfer y landlord a'r tenant) os yw cwmni sy'n cadw'r arian yn mynd i'r wal neu'n cam-drin yr arian. Mae arian cleient yn cynnwys arian rhent, blaendaliadau neu gronfeydd eraill (boed hynny ar ffurf arian

parod, siec, drafft neu drosglwyddiad electronig) y mae Asiant yn ei gadw neu'n ei dderbyn ar gyfer neu gan gleient ac nad yw'n daladwy'n syth ond yn daladwy ar alw i'r Asiant ar gyfer ei gyfrif ei hun. Mae ystod o gynlluniau y gallai Asiantau ymuno â nhw, gyda neu heb fod yn aelod o gorff proffesiynol.

### **Yswiriant lawndal Proffesiynol**

Mae'r yswiriant hwn yn cynnwys costau cyfreithiol amddiffyn hawliad yn erbyn asiant, ynghyd â'r iawndal sy'n daladwy i'r cleient er mwyn gwneud yn iawn am y camgymeriad pe byddech yn torri dyletswydd cytundeb proffesiynol (e.e. drwy roi gwybodaeth anghywir) y mae eich cleient yn flin amdano.

Mae'r lefel o yswiriant sy'n ofynnol fel a ganlyn:

Portffolio cyfun asiantau o eiddo sy'n cael eu gosod a'u rheoli:

- Hyd at 100 eiddo – £100,000
- 101 eiddo neu fwy - £500,000

### **Aelodaeth o Gynllun Camweddau**

Mae hwn yn gorff annibynnol sy'n gweithredu fel 'pwynt dwysáu' ar gyfer cwynion y mae cleientiaid o'r farn y cawsant eu datrys yn anghywir/amhriodol gan yr asiant. Yn ei hanfod, mae'n galluogi'r cleient i gyflwyno cwyn i swyddog penodol i archwilio a rhoi penderfyniad terfynol heb angen defnyddio'r system Llysoedd.

Mae Rhentu Doeth Cymru yn cydnabod dau gynllun unioni dan gyfarwyddyd Ombwdsmon sy'n gweithredu yn y Sector Rhent Preifat. Mae Ombwdsmon yn annibynnol, am ddim ac yn ddi-duedd.

- Cynllun Ombwdsmon Eiddo (<https://www.tpos.co.uk/>)

- Cynllun Unioni Eiddo (<https://www.theprs.co.uk/>)

**Os nad ydych ond yn gweithredu fel asiant ar ran aelod(au) eich teulu (fel y'i diffiniwyd yn a. 258 Deddf Tai 2004) nid yw Rhentu Doeth Cymru yn gofyn i chi gael/cynnal yswiriant Diogelu Arian Cleientiaid, Yswiriant lawndal Proffesiynol nac aelodaeth ar Gynllun Unioni.**